

RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar ffurf cyfarfod rhithiol ddydd Mercher, 2 Rhagfyr 2020.

[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.

Mae dogfennau'r cyfarfod uchod ar gael ar wefan y Cyngor, ynghyd â gwe-ddarllediad byw o'r cyfarfod].

Yn bresennol Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr John Griffith, T LI Hughes MBE, Kenneth P Hughes, Vaughan Hughes, Eric W Jones, Bryan Owen, Dafydd Roberts, Robin Williams.

Y Cynghorydd Richard Dew – Aelod Portffolio (Cynllunio)

Aelodau Lleol: Y Cynghorwyr Dafydd R Thomas (cais 7.2); R Meirion Jones (cais 7.3); Llinos M Huws (cais 12.1); Aled M Jones (cais 12.2)

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, R O Jones.

Hefyd yn bresennol: Aelodau Lleol: Y Cynghorwyr G O Jones, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAgS.

1.00 o'r gloch - 2.10 o'r gloch

RHIF YR EITEM A'R PWNC	2 DATGANIAD O DDIDDORDEB
PENDERFYNIAD	Datganodd y Cynghorydd T LI Hughes MBE ddiddordeb personol mewn perthynas â chais 7.2.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 COFNODION
PENDERFYNIAD	Cadarnhawyd fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd, 2020 yn gywir.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 YMWELIAD SAFLEOEDD
PENDERFYNIAD	Ni chynhaliwyd ymweliad safle.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	5 SIARAD CYHOEDDUS
PENDERFYNIAD	Cyflwynwyd sylwadau gan yr ymgeisydd mewn perthynas ag eitem 12.1 a chawsant eu darllen yn llawn yn y cyfarfod.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 CEISIADAU A FYDD YN CAEL EU GOHIRIO
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	7 CEISIADAU'N CODI
PENDERFYNIAD	<p>7.1 FPL/2019/217 – Cais llawn ar gyfer codi 17 o anheddau fforddiadwy, adeiladu dwy fynedfa newydd ar gyfer cerbydau a 3 mynedfa amaethyddol newydd, gosod gorsaf bwmpio ynghyd â gwaith tirlunio meddal a chaled ar dir ger Stad Craig y Don a Cherry Tree Close, Benllech</p> <p>PENDERFYNWYD gohirio'r penderfyniad ar y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rheswm a roddwyd.</p> <p>7.2 19C1231 – Cais amlinellol ar gyfer codi 32 annedd marchnad a 4 annedd fforddiadwy, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a cherddwyr, darparu man chwarae a mannau agored ynghyd â manylion llawn y fynedfa a'r gosodiad ar dir ger Stad Cae Rhos, Ffordd Porthdafarch, Caergybi</p> <p>PENDERFYNWYD cadarnhau penderfyniad blaenorol y Pwyllgor i wrthod y cais yn groes i argymhelliad y swyddog a hynny am y rhesymau a roddwyd.</p> <p>7.3 FPL/2020/92 – Cais llawn ar gyfer creu 2 le parcio yn 3 Bronallt, Ffordd Cambria, Porthaethwy</p> <p>PENDERFYNWYD cadarnhau penderfyniad blaenorol y Pwyllgor i wrthod y cais yn groes i argymhelliad y swyddog a hynny am y rhesymau a roddwyd.</p>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	8 CEISIADAU ECONOMAIDD
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	9 CEISIADAU A DY FFORDDIADWY
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	10 CEISIADAU'N GWYRO
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	12 GWEDDILL Y CEISIADAU
PENDERFYNIAD	<p>12.1 FPL/2020/166 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd adeiladau allanol i 4 Uned Gwyliau yn Cymunod, Bryngwran</p> <p>PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog oherwydd yr ystyriwyd ei fod yn cydymffurfio â Pholisi TWR2.</p> <p>12.2 FPL/2019/322 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd eglwys i annedd, yn cynnwys adeiladu mynedfa newydd i gerbydau yn Eglwys Crist, Rhosybol</p> <p>PENDERFYNWYD cynnal ymweliad safle rhithwir o safle'r cais.</p>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	13 MATERION ERAILL
PENDERFYNIAD	<p>13.1 Siarad Cyhoeddus yn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion</p> <p>PENDERFYNWYD cadw at y trefniadau presennol o gyflwyno sylwadau ysgrifenedig gyda'r bwriad o gyflwyno cyfraniad gan siaradwyr yn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion o fis Chwefror 2021 ac i ddirprwyo pwerau i'r Prif Swyddog Cynllunio, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i roi'r protocol ar waith unwaith y gwelir fod trefniadau TG a threfniadau eraill yn foddhaol.</p>